Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **11 Chwefror 2020** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

1-02/20: Presennol
Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Phil Jones; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Angela Hughes, Cyng. Nan Davies Hughes; Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Eirwyn Williams;

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-02/20 Ymddiheuriadau:

Cyng. Robert T Price; Cyng. Sian Williams

3-02/20: Datgan diddordeb

4-02/20 Cadarnhau cofnodion mis Ionawr 2020
Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-02/20 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

a. Arwyddion Tai Newydd Ger y George - hysbysebion gan y Cwmni Datblygu - e-byst Swyddog Gorfodaeth Cynllunio - 30 Rhagfyr a phetisiwn gan drigolion – nodwyd bod Cyngor Gwynedd yn ymchwilio i'r gwyn. Yn y cyfamser roedd nifer o'r byrddau wedi difrodi yn y storm dros y penwythnos.

6-02/20: Gohebiaeth

a. Cyngor Gwynedd – Meysydd Chwarae yn eich Tref/Cymuned – llythyr 10fed Ionawr 2020
Roedd llythyr wedi ei gylchredeg a oedd yn esbonio nad oedd hi'n fwriad gan Gyngor Gwynedd i gau'r meysydd chwarae, ac yn wahanol i'r Cynllun Toiledau Cyhoeddus roedd y cynllun arbedion wedi ei gymeradwyo ar sail trosglwyddo cyfrifoldeb yn unig. Trafodwyd y mater o gymryd cyfrifoldeb am y meysydd chwarae yng nghyfarfod y Cyngor Tref ym mis Tachwedd 2019 a chytunwyd nad oedd capasiti gan y Cyngor Tref i gymryd cyfrifoldeb am y meysydd chwarae.

Penderfyniad:

Cadarnhau'r penderfyniad blaenorol nad oedd y Cyngor Tref am gymryd cyfrifoldeb o feysydd chwarae'r dref oherwydd y rheswm a nodwyd ac i gyfleu hyn i Gyngor Gwynedd.

b. Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – Ymateb Un Llais Cymru – 3ydd Ionawr 2020

Roedd ymateb Un Llais Cymru wedi ei gylchredeg –roedd nifer o oblygiadau i Gynghorau Tref a Chymuned.

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth

c. Ciosgau BT - ymgynghoriad Ionawr 2020
Roedd y papur ymgynghoriad wedi ei gylchredeg - doedd dim un ciosg yn effeithio'n unionyrchol ar Griccieth.

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth.

d. Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Betsi Cadwalader – 17 Rhagfyr 2019
Roedd yr adroddiad wedi ei gylchredeg

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth.

7 **02/20: Ceisiadau Cynllunio**

a. C19/0992/35/AM Cais amlinellol gyda'r holl faterion wedi eu cadw yn ôl i godi tŷ preswyl a modurdy

Penderfyniad:
Dim sylwadau

b. C20/0047/35/DT Cais ar gyfer darparu ffenestr grom ar lawr gwaelod yr adeilad; Harlech View, Wellington Terrace, Tanygrisiau, Criccieth, LL52 0DB

Penderfyniad:
Dim gwrthwynebiad

c. C20/0072/35/DT Cais i ddymchwel estyniadau presennol a chodi estyniad to fflat ar gefn yr eiddo gyda balcony uwch ei ben ynghyd a darparu ffenestr gromen ar hyd edrychiad cefn yr eiddo; Tir Uchaf, Lôn Ednyfed, Criccieth, LL52 0LE

Penderfyniad:
Dim gwrthwynebiad

d. C20/0075/35/CC Torri coeden o fewn Ardal Cadwraeth: Lion Hotel, Y Maes, Criccieth, LL52 0AA

Penderfyniad:
Danfon sylwadau: Mae'r Cyngor Tref yn anfodlon bod coed yn cael eu tynnu lawr mewn ardal cadwraeth heb reswm da - does dim rheswm digonol i gefnogi'r cais hwn.

e. C20/0084/35/LL Cais i godi tŷ; Modwenna, Lôn Geraint, Criccieth, LL52 0HR

Penderfyniad:
Dim gwrthwynebiad

8-02/20: Llenwi seddau gwag y Cyngor Tref

Nodwyd bod y rhybudd o ddwy sedd wag wedi cael ei rhoi ar hysbysfwrdd y Cyngor Tref a'r safle We yn nodi bwriad y Cyngor i gyfethol i'r seddau gwag – dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i'r Clerc: 29 Chwefror 2020.

Penderfyniad: Derbyn er gwybodaeth

9-02/20 Goleuadau Nadolig 2020

a. Goleuadau Colofn Newydd

Roedd y Cyngor Tref wedi cytuno i neilltuo tua £8400 ar gyfer prynu goleuadau colofn newydd ar gyfer Nadolig 2020 oherwydd cyflwr ac oedran y goleuadau presennol. Roedd adroddiad cyflwr gan y trydanwr yn cadarnhau bod 7 o'r 14 goleuadau colofn gyfredol mewn cyflwr gwael iawn ac nid oedd yn economaidd i'w atgyweirio. Roedd 7 fodd bynnag mewn cyflwr da neu angen man atgyweirio.

Penderfyniad:
I brynu 14 colofn golau newydd ar gyfer y Stryd Fawr - Aura £570 yr un + TAW a chost cludiant (tua £50). I ddefnyddio'r 7 golau colofn gyfredol i'w gosod ar Ffordd Gaernarfon fyny o groesffordd y Maes ar gyfer 2020. Bydd cost ychwanegol i'w gosod yn y flwyddyn gyntaf.

b. Goleuadau Coeden Newydd

Cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf i ofyn am bris ar gyfer golau newydd i un goeden ar y Maes - y gost am 4 set o 50 a dreifar pwrpasol oedd £2382 + Taw a chludiant.

Penderfyniad:
I ohirio prynu'r goleuadau newydd yma oherwydd y penderfyniad i fuddsoddi yn y goleuadau colofn.

10-02/20: Safle We'r Cyngor Tref

Yn sgil deddfwriaeth gan y Llywodraeth, sef "The Public Bodies (Websites and Mobile Applications) (No 2) Accessibility Regulations 2018 mae angen sicrhau bod safle We'r Cyngor Tref yn ateb y gofynion erbyn 23 Medi 2020. Y briff sydd wedi ei dderbyn gan y National Association of Councils (NALC) wedi ei gylchredeg. Roedd cost aruthrol o filoedd o bunnoedd i wirio'r safle We bresennol ac nid oedd darparwr presennol y Cyngor Tref mewn sefyllfa i gynnig addasu'r safle We bresennol nac i greu safle We newydd i ni. Mae angen datganiad hygyrchedd hefyd.
Roedd y Clerc wedi gyrru i holi am brisoedd gan wahanol gwmnïau.

Penderfyniad:

I fuddsoddi mewn prynu safle We newydd ac i ddirprwyo cyfrifoldeb o benderfynu ar y cwmni priodol i ymgymryd â'r gwaith i'r Is-bwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol ar ran y Cyngor.

11-02/20 Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad

a. Jet sgis

Roedd y Clerc wedi sgwennu yn dilyn y cyfarfod diwethaf i ofyn i Gyngor Gwynedd am ddiweddariad a'u cynlluniau ar gyfer y tymor nesaf a hefyd cyflwyno'r ddeiseb yn cefnogi gwahardd jet sgis. Roedd ymateb wedi dod i law yn nodi na fyddai'n debyg y byddai gan Gyngor Gwynedd yr awdurdod neu'r adnoddau i wahardd unrhyw ddefnydd o Fadau Dwr Personol ar y môr rhwng Pwllheli a Phorthmadog. Roedd y swyddog yn ffyddiog y byddai adolygiad o'r is-ddeddfau arfordirol yn cryfhau ei rheolaeth ohonynt. .Ar gyfer y tymor sydd yn prysur nesáu, fe fydd staff y Cyngor yn plismona'u rhannau mwyaf poblogaidd o'r arfordir a'r arborau yn ystod prif dymor yr haf. Fe fydd hyn yn cynnwys traeth Criccieth. Gwnaeth y sylw bod y Cyngor dros y blynyddoedd wedi cyflwyno rheoliadau penodol ar gyfer mordwyo Badau Dwr Personol a Chychod Pŵer ar yr arfordir a bod y rheoliadau wedi bod yn effeithiol ac mae rhan helaeth o ddefnyddwyr yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau.

Er bod y cynllun cofrestru a rheolaeth o'r arfordir yn gost sylweddol i drethdalwyr roedd y swyddog yn ffyddiog bod y cynllun yn effeithiol ac oherwydd hyn y bwriad oedd parhau gyda'r gofynion cofrestru a gyda rheoli mannau poblogaidd o'r arfordir. Nododd mai nifer fach o gwynion a digwyddiadau oedd wedi dod I law a chytunodd nad oedd y digwyddiad yng Nghriccieth yn 2019 yn dderbyniol ond taw nifer fechan iawn o ddefnyddwyr oedd yn methu a chydymffurfio a'r rheoliadau ac i ymddwyn yn gyfrifol. Nododd y bydd y Cyngor yn parhau gyda threfniant rheoli traethau a chofrestru cychod pŵer yn ystod 2020 er gwaetha toriadau mewn cyllidebau Awdurdodau Lleol. Pwysleisiodd mai am gyfnodau cymharol fyr oddi fewn calendr blwyddyn roedd staff yn goruchwylio traethau. Roedd hefyd yn anorfod nad oedd posib cael goruchwyliaeth ar draethau am y nifer oriau ble mae bosib i unigolion lansio cychod. Roedd wedi ystyried cais y Cyngor Tref i osod y Bwiau Parth Cyflymder Uchaf cyn Gŵyl Y Pasg. Yn anffodus nid oedd yn ymarferol i wneud hyn gan fod gan Gyngor Gwynedd nifer helaeth o fwiau Parth Cyfyngiad Cyflymder ar yr arfordir ac roedd angen cynnal a chadw'r rhain drwy gydol y tymor prysuraf. Ar wyntoedd cryfion roedd bwiau yn symud ac felly roedd angen lleihau'r cyfnod ble mae'n bosib i wyntoedd cryfion ddod a'r bwiau at y lan. Pwysleisiodd y bydd staff yn sicrhau bod yna gynnydd yn y nifer y bwiau bydd yn cael eu gosod yng Nghriccieth eleni gan obeithio bydd defnyddwyr cychod pŵer yn gallu dehongli pwrpas y bwiau a chydymffurfio gyda'r cyfyngiad oddi fewn y parth. Roedd yn cynnig trafod y mater gydag aelodau'r Cyngor Tref.

Penderfyniad:

I sgwennu i ddiolch i'r Swyddog am yr ymateb ac i nodi nad oedd y Cyngor Tref yn bell o fod yn hapus gyda'r sefyllfa. Roedd y Cyngor Tref yn anfodlon gyda'r drefn bresennol nad oedd ym marn y Cyngor yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd yn enwedig ar ôl pump o'r gloch y prynhawn sef oriau cau'r swyddfa. Roedd cyfrifoldeb diogelwch y cyhoedd gan Gyngor Gwynedd ac roedd y Cyngor Tref yn wir bryderus am ddiogelwch pobl. Bydd hefyd gwahoddiad i'r Swyddog fynychu cyfarfod o'r Cyngor Tref.

b. Tai Fforddiadwy

Aros am adroddiad

c. Astudiaeth Dichonoldeb Adeilad yr Hen Lyfrgell –

Roedd yr adroddiad terfynol wedi ei gylchredeg. –

Penderfyniad:

I ddiolch am yr adroddiad ac i drefnu cyfarfod arbennig o'r Cyngor Tref i'w ystyried pan fydd sefyllfa gyfreithiol yr adeilad yn wybyddus.

d. Prosiect VE

Nodwyd bod y prosiect cymunedol ar y pabis wedi cychwyn. Bydd gweithdai gyda'r Ysgol yn cychwyn ar ôl hanner tymor. Roedd syniad wedi codi i symud yr arddangosfa i fod o gwmpas y stryd fawr Criccieth yn hytrach nac yn y Neuadd Goffa gan nad oedd y Neuadd ar gael ar y penwythnos i ddilyn yr 8fed. Roedd cyfarfod i drafod gyda siopwyr ar 25 Chwefror.

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth ac i groesawu'r syniad o symud yr arddangosfa i'r Stryd Fawr.

12-02/20 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell
Aros am ymateb.

13-02/20 Groynes ac Amddiffynfeydd Môr Criccieth

Roedd difrod ofnadwy i'r prom oherwydd y storm ddiweddar dros y Sul a'r Cyng. Eirwyn Williams wedi bod mewn cyswllt gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â hyn. Roedd y Cyngor wedi cychwyn ar y gwaith o adfer y sefyllfa.

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth.

14-02/20 Trafnidiaeth yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd. Yn anffodus nid oedd yr arwyddion yn eu lle eto a'r Clerc wedi sgwennu eto at y swyddog yng Nghyngor Gwynedd.

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth.

15-02/20 Torri gwair a gwrychoedd yn y dref

Roedd y Clerc wedi bod mewn cyswllt gyda Chyngor Gwynedd yn gofyn am hawl i'r Cyngor Tref drefnu a thalu am dorri'r gwrych Rhif 1. Roedd ymateb cadarnhaol gan Gyngor Gwynedd yn cytuno i'r gwaith tocio fynd rhagddo yn fuan gyda chwblhad cyn diwedd mis Mawrth. Roedd y Cyngor angen gwybod penderfyniad y Cyngor Tref am yr ymgymerwr a ddetholwyd i gwblhau'r gwaith a'i amserlen i fod ar y safle.

Roedd y Clerc wedi gwahodd tri o ymgymerwyr i gyflwyno prisoedd am un barbiad o wrych Llwybr Rhif 1 a thri barbiad y flwyddyn o fynwent Pen y Maes am gyfnod o 3 blynedd. Cafwyd ystyriaeth o'r prisoedd a oedd wedi eu cyflwyno ar gyfer y gwaith yma.

Penderfyniad
Cytunwyd i osod y gwaith i gwmni J.H. Williams.

16-02/20 Parcio yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

17-02/20 Torri coed yng Nghriccieth
Nodwyd bod y Cyng. Phil Jones wedi trefnu cyfarfod gyda'r asesydd coed.

Penderfyniad
Derbyn er gwybodaeth.

18-02/20 Meinciau Tref Criccieth
Dim byd i'w adrodd

19-02/20 Llwybrau Cyhoeddus – gan gynnwys Llwybr 11
Roedd y Clerc wedi ysgrifennu eto at y Swyddog Cyngor Gwynedd. - wedi derbyn e-bost yn ymddiheuro am yr oedi.

Penderfyniad:.
Y Clerc i sgwennu i gynnig bod un o swyddogion Cyngor Gwynedd yn trefnu cwrdd ar fyrder gyda'r Cyng. Wayne Roberts ac i'r pwnc yma ymddangos yn gynt ar agenda'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

20-02/20: Y Rheolwr Pensiynau
Nodwyd bod y Clerc ar ran y Cyngor wedi ail ddatgan y sefyllfa gyda'r Rheolwr Pensiynau. Llythyr wedi ei dderbyn yn cadarnhau hyn.

Penderfyniad:.
Derbyn er gwybodaeth.

21-02/20 Derbyniadau
Dim

22-02/20: Taliadau

- Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE) £34.09(siec 101379)
- Cyflog y Clerc (Ionawr) £755.66 (siec 101380)
- Cwmni Drama Llanystumdwy £200.00 (siec 101381)
- Criccieth yn ei Blodau £492.26 (siec 101382)
- Clwb Tenis Criccieth £357.60 (siec 101383)
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru £2500.00 (siec 101384)
- Neuadd Goffa Criccieth £5000.00 (siec 101385)
- Costau Teithio Clerc £19.00 (siec 101386)
- Dr Catrin Jones (costau prosiect VE) £119.99 (siec 101387)
- Atkin Groundworks Ltd £380.40 (siec 101388)

Penderfyniad:

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 10 Mawrth 2020**.
Bydd y rhaglen yma yn cau **2 Mawrth 2020**